PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 12 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Cunnah a/ac Mackie |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Boyle a Lister.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Mackie fuddiant personol yn eitem 5 gan mai ei chwaer yw Pennaeth Gofal Integredig.

43 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

44 : ARWEINYDDIAETH CWSMERIAID

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet – Cyllid, Moderneiddio a Llywodraethu), Isabelle Bignall (Prif Swyddog Digidol) a Rachel Bishop (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau'n cofio i grŵp gorchwyl o'r Pwyllgor gynnal adolygiad o Arweinyddiaeth Cwsmeriaid, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Mae'r protocol yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cabinet yn ymateb yn ffurfiol i argymhellion ymchwiliad Pwyllgor Craffu. Felly, roedd y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn bresennol i roi gwybod i'r Pwyllgor am ymateb y Cabinet i'r argymhellion, a sut yr oeddent yn bwriadu eu datblygu.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd ei fod yn croesawu'r adroddiad ac roedd yn falch bod chwech o'r argymhellion wedi'u derbyn a bod un wedi'i dderbyn yn rhannol. Ychwanegodd y byddai swyddogion yn trafod sut y bydd yr argymhellion yn troi'n gamau ymlaen.

Dywedodd Isabelle Bignall wrth yr Aelodau fod rôl newydd wedi'i chreu'n benodol ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid a bod Rachel Bishop wedi bod yn llwyddiannus i gael y swydd hon ac y byddai'n mynd i Bwyllgorau Craffu yn y dyfodol.

Amlinellodd Rachel Bishop gyflwyniad i'r Aelodau, gan gynnwys gwybodaeth am y Siarter Cwsmeriaid; Safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Mesur Llwyddiant, Opsiynau Achredu; Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a Heriau Allweddol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd Aelodau y gallai'r gwaith o gasglu data fod yn her ac y gallai fod yn anodd gwybod pa feysydd gwasanaeth sy'n arbennig o dda neu'n wael o ran gwasanaeth cwsmeriaid, gan ofyn sut y caiff hyn ei asesu a'i ddiagnosio i weld pa gamau sydd angen eu cymryd.   Esboniodd swyddogion y bydd cyfres strategol o ddogfennau, byddant hefyd yn cynnwys gwasanaeth cwsmeriaid yn y broses Adolygu Bersonol newydd.  Nodwyd y gallai fod yn anodd dod o hyd i ddata, ac yn gynnar yn y flwyddyn newydd, byddai arolwg gwasanaeth cwsmeriaid cyflym yn digwydd gyda phum cwestiwn i bennu sefyllfa 'ble ydym'.  Roedd aelodau o'r farn y dylai Cynghorwyr fod yn rhan o hyn hefyd, gan eu bod mewn cysylltiad â llawer o wahanol adrannau'r Cyngor.  Nododd yr Aelodau hefyd y defnydd o arolygon bodlonrwydd drwy negeseuon testun a hoffent weld y defnydd o hyn yn cynyddu.

Gan gyfeirio at gwsmeriaid mewnol/allanol, gofynnodd Aelodau sut y gellid canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid mewnol.  Esboniodd swyddogion fod hyn yn rhan o'r Siarteri Cyflogeion a Chwsmeriaid, a bod y ddau ohonynt yn gwbl gydgysylltiedig; byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y cwrs hyfforddi lefel 1 a'r cwrs ar-lein a gaiff ei lansio ar ddechrau'r Adolygiadau Personol, byddai ffocws hefyd ar Uwch Reolwyr a ddylai fod yn modelu ymddygiadau rôl.

Roedd aelodau o'r farn ei fod yn adroddiad cadarnhaol ac roedd yn dda gweld y cynllun a'r camau a wnaed eisoes, gan gynnwys y rhan a chwaraeir gan Admiral a Nwy Prydain.  O ran metrigau, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen dull cyson ar draws pob gwasanaeth gwahanol er mwyn gallu cymharu o flwyddyn i flwyddyn. Roedd swyddogion yn cytuno bod metrigau yn bwysig er mwyn uno'r hyn a oedd yn cael ei wneud, gan ychwanegu y byddai trafodaeth yn digwydd gyda'r tîm perfformiad canolog i weld beth sy'n cael ei wneud a beth yw'r peth gorau i'w feincnodi.

O ran y Siarter Cwsmeriaid, roedd aelodau o'r farn bod hyn yn beth da, ond nodwyd bod rhai gwasanaethau lle nad oes unrhyw ryngweithio â'r cwsmer o gwbl, ond y gellid rhoi gwybod i'r cwsmer am sut y perfformiodd y gwasanaeth.  Dywedodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r agenda Dinasyddion Cysylltiedig, a bod hunan wasanaeth ac ymdrech cwsmeriaid yn allweddol.

Bu'r Aelodau'n trafod hyfforddiant a gofynnwyd a oedd C2C wedi cael adnoddau digonol ar gyfer hyn.  Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod C2C yn cael hyfforddiant cadarn ond ar hyn o bryd nid ydynt wedi gallu rhyddhau pobl i ddarparu hyfforddiant i eraill.  Byddai rhaglen o hyfforddi'r hyfforddwyr ac mae trafodaethau gyda'r Academi ar y gweill lle byddai staff bellach yn cael eu rhyddhau i gyflwyno modiwlau hyfforddi 1-3 yn y flwyddyn gyntaf yn ychwanegol at y modiwl hyfforddiant ar-lein.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai'r hyfforddiant lefel 1 yn orfodol i bob aelod o staff ac fe'u cynghorwyd y byddai'r modiwl ar-lein yn orfodol i ddechreuwyr newydd, ac y byddai'n orfodol dros amser i bob aelod o staff rheng flaen.  Trafododd yr Aelodau hyfforddiant uwch-reolwyr, a sut y byddai'r holl hyfforddiant i gwsmeriaid yn cael ei adolygu a'i fonitro. Roeddent o'r farn y gellid ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor i'w fonitro yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at argymhelliad 6 a dderbyniwyd yn rhannol a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r Cyngor yn symud ymlaen gydag opsiwn ystyriol gan fod yr egwyddor o gysylltu â chorff proffesiynol yn bwysig.  Cytunodd yr Aelod Cabinet ei fod yn egwyddor bwysig ac roedd yn bwysig dewis y sefydliad priodol ac edrych ar y

gyllideb gyda chefnogaeth ar gael.  Roedd y bwriad a'r gwerth yn glir ac wedi'u deall, byddai gwerthusiad ymarferol yn gyntaf a byddai adborth yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

O ran hyfforddiant, roedd yr Aelodau o'r farn y gallai astudiaethau achos fod yn ddefnyddiol wrth siarad â rheolwyr gan y gallent gario mwy o bwysau.  Roedd swyddogion yn cytuno ei bod yn bwysig darganfod pocedi o arfer gorau a dod o hyd i bencampwyr, rhannu straeon ac ysgogi'r gweithlu.

Bu'r Aelodau'n trafod yr achrediad ac yn meddwl tybed sut y byddai'n gweithio pe bai rhai adrannau'n barod tra bo eraill ddim.  Esboniodd swyddogion nad oedd hyn yn glir ar hyn o bryd, er enghraifft byddai'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid yn darparu Cyfarwyddwr Cleient am 6/8 wythnos ac yn edrych ar berfformiad a lle y gallai achrediad ddechrau, byddai hyn yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen. Nododd yr Aelodau fod gan rai adrannau gwsmeriaid mewnol yn bennaf, megis adnoddau dynol a bod cyfle i edrych ar y rhain a siarad â'u cwsmeriaid.

Trafododd yr Aelodau'r Gwasanaethau i Blant a'r ffaith bod plant fel defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â llawer o wahanol wasanaethau. Roeddent o'r farn y gallai fod cyfle i wneud rhywfaint o waith penodol yma.  Cytunodd swyddogion y gellid gwneud rhywfaint o waith pwrpasol pe bai angen, ond dylai fod yn gyson o ran diwylliant ar draws y Cyngor, ond byddai'n safbwynt da i'w ystyried yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith yn rheolaidd.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

45 : CYNIGION CYLLIDEB 2019/20 AR GYFER YMGYNGHORIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau), Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) a Gareth Newell (Polisi, Partneriaethau a Rheolwr Canolbwyntio ar Ddinasyddion) i'r cyfarfod.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gymryd trosolwg o strategaeth ariannol y Cyngor. Felly, cyn craffu ar y gyllideb ym mis Chwefror, roedd hyn yn gyfle i'r Pwyllgor, fel rhanddeiliad yn strategaeth ariannol y Cyngor, i gymryd gorolwg strategol o'r cynigion y mae'r Cyngor yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r Gofyniad Lleihau Cyllideb ar gyfer 2019/20, ac i ystyried yr ymgynghoriad ar y gyllideb, sef Newid i Gaerdydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod yr ymgynghoriad ar fynd tan 2 Ionawr 2019; roedd y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar fin cael ei gyhoeddi ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau pellach i'r cynigion.

Amlinellodd Ian Allwood gyflwyniad i'r Aelodau gan gynnwys gwybodaeth allweddol ar y Trosolwg o'r Setliad Dros Dro; Bwlch Cyllideb 2019/20; Strategaeth Gyllideb 2019/20; Ymgynghori ac Ymgysylltu.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr Aelodau, mewn perthynas â’r system Rheoli Risg Ariannol, fod problemau wedi bod yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheoli Gwastraff a bod angen lliniaru ar y risgiau hyn. Gofynasant pa fesurau diogelwch a weithredwyd i wneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio'r system Rheoli Risg Ariannol. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn gyfforddus yn defnyddio'r system Rheoli Risg Ariannol, cafodd ei sefydlu pan oedd arian nad oedd wedi'i gynllunio ar ei gyfer; cafodd y system Rheoli Risg Ariannol ei ddefnyddio o'r blaen ar gyfer prosiectau unigol fel atgyweirio ffyrdd neu linellau ac arwyddion ffordd. Mae dyfarniad wedi'i wneud eleni oherwydd lefel yr arbedion a'r cyllid dros dro, i ddefnyddio'r system Rheoli Risg Ariannol fel mesur diogelwch, i beidio â chyflwyno arbedion pellach o £4 miliwn. Ystyriai y byddai'n lliniaru rhai toriadau mewn gwasanaethau ond os na ellir ei ailsefydlu, yna byddai'n mynd am byth felly nid oedd yn benderfyniad cyfforddus i'w wneud. Ychwanegodd ei fod yn falch bod y gronfa wrth gefn yn parhau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y setliad terfynol yn fwy na'r disgwyl, a fyddai modd adfer y system Rheoli Risg Ariannol. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ystyried pob opsiwn i roi sicrwydd os yw cyllideb y flwyddyn nesaf yn anodd gan ei fod yn fecanwaith gwerthfawr i ddelio â materion untro a diogelu'r gyllideb. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau nad oedd swm y cyllid ar gyfer Pensiynau Athrawon wedi'i gadarnhau eto. Pe bai'n cael ei ariannu o rywle arall, byddai £3.4m ychwanegol; roedd Swyddogion yn disgwyl newyddion da am hyn ond nid oedd unrhyw beth wedi'i gadarnhau eto, roedd y swm hwn yn yr amcangyfrif o'r bwlch yn y gyllideb ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n well defnyddio'r system Rheoli Risg Ariannol neu'r cronfeydd wrth gefn. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai bob amser yn chwilio am gyngor oddi wrth y Swyddog Adran 151 am ba un i'w ddefnyddio ac y byddai'n dibynnu ar elfennau o'r setliad terfynol. Byddai hefyd yn dibynnu ar bwysau a chyllid grant ac ati a oedd heb benderfynu ar hyn o bryd. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn awyddus i leihau'r ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn.

Nododd yr Aelodau y bu newid yn y drefn yn Llywodraeth Cymru gan feddwl tybed a allai hyn newid y setliad terfynol. Gofynnodd yr Aelodau ai £35m oedd yr uchaf y bu'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd iddo. Esboniodd swyddogion eu bod wedi gorfod dod o hyd i £42.3m yn 2013/14. O'r £35m, roedd arbedion o £19.4m i'w cael, a oedd wrth gwrs ar ben yr holl arbedion blaenorol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y sefyllfa o ran y Dreth Gyngor ac a oedd terfyn uchaf ar y cynnydd. Esboniodd swyddogion fod Prif Weinidog newydd ac efallai fod ganddo farn ar hyn, ond mae awdurdodau lleol eraill wedi mynd yn uwch na'r cap blaenorol o 5%; ni fu cyfeiriad i gapio ac roedd angen cydbwysedd o ran lleihau'r effaith ar y gronfa wrth gefn ond cynyddu'r effaith ar y Cyngor.

Trafododd yr Aelodau Grantiau a nodwyd y diffyg eglurder ar hyn mewn blynyddoedd blaenorol, gan ofyn a oedd y sefyllfa o ran grantiau yn glir eleni. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y ffigurau mawr yn yr adroddiad yn rhai Cymru Gyfan, eu bod yn llai ar gyfer Caerdydd, gan ychwanegu nad yw'r bwlch yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gael mewn grantiau ond ei bod yn bwysig bod yn ddarbodus. Ychwanegodd swyddogion fod y cyllid grant ar gyfer gweithgareddau ac eitemau nad oes cyllideb ar eu cyfer yn y setliad.

Amlinellodd Gareth Newell gyflwyniad i'r Aelodau ar Egwyddorion Ymgysylltu’r Gyllideb 2019/20, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd aelodau o'r farn bod rhai rhannau o'r ymgynghoriad yn anodd eu deall, megis y Cap ar Dwf Ysgolion, Fferm Solar Ffordd Lamby ac ati.  Nododd yr Aelodau nad oedd rhai cwestiynau'n ymwneud â'r gyllideb fel y rhai ar gyfer Gofal Maeth a Digwyddiadau, a bod diffyg gwybodaeth ategol ar gyfer y cwestiynau hyn. Dywedodd swyddogion fod y Cap ar Dwf Ysgolion yn fater cymhleth i'w grynhoi'n baragraff ond y byddent yn nodi hyn ar gyfer y dyfodol.  O ran Maethu, eglurodd Swyddogion fod y cwestiynau yno i chwilio am wybodaeth ac i dynnu sylw at y pwysau.  O ran Ffordd Lamby, eglurodd Swyddogion mai cynllun buddsoddi i arbed ydoedd a fyddai'n adennill costau'r buddsoddiad ond roedd Swyddogion yn derbyn nad oedd yn glir yn y ddogfen ymgynghori.

Roedd Aelodau o'r farn y gellid profi'r ymgynghoriad cyn iddo gael ei ddosbarthu, megis gyda'r Panel Dinasyddion neu'r Cyngor Ieuenctid, neu o bosibl dod i’r Pwyllgor Craffu yn gynharach am safbwyntiau.   Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn anodd gan nad yw cynigion y gyllideb yn hysbys yn gynharach yn y flwyddyn, nid yw setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn dod allan tan fis Hydref, ac felly bydd ymgynghori'n digwydd ar ôl hyn.  Roedd y Cadeirydd o'r farn y gallai gael ei oedi ychydig a'i ddwyn i’r Pwyllgor Craffu/Cynghorwyr am sylwadau.

Trafododd yr Aelodau gynllun y ddogfen ymgynghori gan ystyried y gallai gael gwybodaeth ategol/ychwanegol yn y tu blaen a’r tu cefn a gellid tynnu'r holiadur allan o'r canol i'w ddychwelyd, gan alluogi'r adrannau gwybodaeth i gael eu cadw gan yr ymgynghorai.

Gan gyfeirio at Faethu, nid oedd Aelodau'n gyfforddus â'r term 'gyrfa' ac roedd y cyfeiriad at yr agwedd ariannol yn ail ar y rhestr, gan nodi hefyd nad oedd lle i ysgrifennu sylwadau ychwanegol.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod llawer o waith yn cael ei roi i'r ddogfen ymgynghori er resymau hwylustod iaith ac ati.  Ychwanegodd y byddai'r cwestiwn ynghylch Maethu'n cael ei ystyried gyda'r maes gwasanaeth, ei bod yn bwysig gwybod beth sy'n cymell pobl a pham mae pobl yn defnyddio asiantaethau maethu ac ati.  Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ystyried yr holl sylwadau, gan ychwanegu ei fod yn falch bod ymgynghoriad ar wahân ar gyfer pobl ifanc, ond nid oedd canlyniadau hyn yn hysbys eto.

Nododd Aelodau y gall grwpiau ffocws ddod â gwahanol ganlyniadau i holiaduron gan fod cyfle i esbonio cwestiynau ac opsiynau a bod pobl yn fwy hyddysg.  Nododd yr Aelodau hefyd y byddai pocedi yn ddaearyddol ym mhob rhan o'r ddinas lle mae'r cyfraddau ymateb yn isel ac y byddai pobl yn fwy anodd i ymgysylltu â nhw a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â rhwystrau iaith lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf.  Roedd swyddogion yn cytuno bod grwpiau ffocws yn ddefnyddiol a dywedasant fod mwy o waith ymgynghori'n cael ei wneud ar y trywydd hwnnw.  Roedd rhwystrau ieithyddol yn cael eu hystyried gyda chyfeillion a grwpiau cymdogion a byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal mewn ardaloedd gofodol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

46 : DIWEDDARIAD AR YR YSTÂD BUDDSODDI MEWN EIDDO

Croesawodd y Cadeirydd Helen Thomas (Rheolwr Ystadau Strategol) ac Eirian Jones (Prif Syrfëwr, Ystadau Strategol) i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD: symud i sesiwn caeedig. Y rheswm am hyn oedd bod gan yr Aelodau wybodaeth fel rhan o'u papurau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi. Mae Atodiadau 2, 3 a 5 o Atodiad A i'r papurau wedi'u heithrio gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i disgrifir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.**

CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

47 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu wrth yr Aelodau y byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei chyhoeddi bob chwarter ar wefan y Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai eitem ychwanegol i'w hychwanegu ar yr Adolygiad o'r Strategaeth Ddwyieithog, a fyddai'n cael ei drefnu ar gyfer Ebrill 2019.

Cytunwyd: i gyhoeddi'r Flaenraglen Waith ar gyfer Ionawr 2019 hyd at Ebrill 2019, gan ychwanegu eitemau a ddygwyd i sylw'r Prif Swyddog Craffu ers cyhoeddi papurau'r pwyllgor.

48 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd y byddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau a fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

49 : EITEMAU BRYS

Ni ddaeth dim i law.

50 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 16 IONAWR 2018 AM 5.00PM

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm